

Darlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol Cyflog cychwynnol £41,064 y flwyddyn

Mae'r Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg yn awyddus i benodi Darlithydd i ymuno â'r tîm Gwaith Cymdeithasol deinamig sy'n datblygu'n gyson ym Mhrifysgol De Cymru (PDC). Bydd y cyfraniad hwn yn cwrddu cyflwyno ystod o fodiwlau, cefnogi myfyrwyr gan gynnwys trwy reoli grŵp tiwtorial personol, gweithio gydag ystod o gydweithwyr a chefnogi ystod o brosesau gweinyddol cysylltiedig sy'n gysylltiedig â chyflwyno profiad myfyrwyr o ansawdd uchel sy'n cefnogi cynnydd myfyrwyr trwy eu cwrs. Bydd y deiliad swydd yn chwarae rhan weithredol mewn recriwtio a derbyn myfyrwyr, gan gynnwys gweithgaredd allgymorth, ymgysylltu ag ymgeiswyr, a chymryd rhan mewn prosesau dethol a chyfweld.

Bydd y deiliad swydd yn gweithio ar draws ein rhaglen gradd Gwaith Cymdeithasol a'r maes pwnc ehangach ac yn cefnogi'r addysgu, yr asesu a'r cymorth i fyfyrwyr. Rydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad a dealltwriaeth o ymarfer gwaith cymdeithasol ac sy'n gallu cydlyn, addysgu a chefnogi ein myfyrwyr dan hyfforddiant yn effeithiol i gyflawni mewn amgylchedd AU sy'n newid yn gyson.

Mae hon yn swydd barhaol amser llawn.

Am sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag Owain Jones owain.jones@southwales.ac.uk

Darganfyddwch fanteision gweithio i PDC: <https://tinyurl.com/GweithioYnPDC>

Mae PDC wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Disgwylir i bawb sy'n gweithio yn y Brifysgol rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi gweithlu amrywiol a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall cydweithwyr fod yn nhw eu hunain a phob person yn cael ei drin ag urddas, tegwch a pharch. Rydym yn annog ceisiadau o gefndiroedd a chymunedau amrywiol, yn enwedig o ran oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd a/neu gred. Rydym yn meincodi ein llwyddiant trwy achrediadau cydraddoldeb gydag Athena Swan, Siarter Cydraddoldeb Hil, Stonewall a Hyderus o ran Anabledd.

Os ydych chi'n ddysgwyr Cymraeg neu'n siarad Cymraeg, byddwn ni'n falch o dderbyn eich cais. Bydd gennych fynediad i gyrsiau Cymraeg i'ch galluogi i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg ymhellach, er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog i'n myfyrwyr, cydweithwyr a'r cyhoedd.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd ceisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg.

Ymgeisiwch ar-lein <https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/swyddi-yn-pdc/>

Swydd-ddisgrifiad

Swydd	Darlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol <i>Mae'r swydd hon yn dod o fewn y Teulu Swyddi Addysgu ac Ysgolheictod</i>
Cyfadran	Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg ym Mhrifysgol De Cymru
Gradd a chyflog	Gradd F * £41,064 – £47,389 y flwyddyn * penodir ar isafswm y raddfa
Oriau gwaith	Amser Llawn
Hyd cytundeb	Parhaol
Yn adrodd i	Pennaeth Pwnc

Pwrpas y swydd

Fel Darlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol, disgwylir i chi:

- Cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Brifysgol, wedi'i hategu gan gynnig profiadau dysgu eithriadol, gan ddefnyddio dull ysgolheigaidd, ymchwil gymhwysol a modelau cyflwyno ac asesu arloesol, ac felly darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr.
- Creu diddordeb a brwdfrydedd ymhlith myfyrwyr, eu hysbrydoli i ddysgu a bod yn fodel rôl enghreifftiol.
- Cefnogi a chyfrannu at ddatblygu modiwlau a chysiau ac ymgymryd ag arweinyddiaeth modiwlau yn ôl yr angen.
- Gweithredu fel tiwtor/hyfforddwr personol i fyfyrwyr.
- Cyfrannu at recriwtio myfyrwyr, gan gynnwys cymryd rhan mewn diwrnodau agored a digwyddiadau recriwtio.
- Cefnogi a chyfrannu at brosesau ansawdd, gan gynnwys monitro gwerthusiadau myfyrwyr (gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS), gan gymryd camau gweithredu priodol, os oes angen.
- Bod yn rhan o farchnata a recriwtio myfyrwyr, gan gynnwys mynychu diwrnodau agored y Brifysgol yn ôl yr angen (mae angen rhywfaint o weithio ar y penwythnos).

Cyfrifoldebau Allweddol

Profiad Myfyrwyr

1. Hyrwyddo a gweithredu mentrau, arferion gwaith a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol sy'n gwella profiad myfyrwyr.
2. Ymrwymo i wella profiad myfyrwyr bob amser, gan ddefnyddio'r ystod o fetrigau sydd ar gael, megis yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (a thablau cynghrair eraill).
3. Cyfrannu at brofiad ehangach y myfyriwr e.e. cymryd rhan mewn digwyddiadau recriwtio, cymryd rhan mewn mentrau cyflogadwydd.

Dysgu ac Addysgu

4. Datblygu a chyflwyno deunydd a gweithgaredd o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion dysgu myfyrwyr ac amcanion dysgu diffiniedig sy'n cyd-fynd ag Egwyddorion Cynllunio Cwricwlwm PDC

gan gofleidio dysgu gweithredol a chynhwysiant trwy ddylunio.

5. Arddangos arfer da mewn addysgu, dysgu ac asesu trwy ddefnyddio ystod eang o adnoddau dysgu ac arfer addysgegol priodol.
6. Sicrhau bod ymchwil gyfoes a chyfredol yn y maes perthnasol yn llywio'r addysgu a bod myfyrwyr yn cymryd rhan mewn dadl, trafodaeth feirniadol a meddwl rhesymegol.
7. Myfyrio'n feirniadol ar eich ymarfer addysgu, dysgu ac asesu eich hun, a rhoi gwelliannau ar waith.
8. Nodi offerynnau a meini prawf asesu priodol ac effeithiol, ac ymgysylltu'n weithredol â'r prosesau monitro a gwella ansawdd.
9. Cydwethio ar gynllunio, dylunio a datblygu rhaglenni a chyrsgiau byr a'r cwricwlwm a gynhwysir yn y rhaglenni hynny.

Ymchwil ac Ysgolheictod

10. Ymgorffori ymchwil pwnc ac addysgeg a/neu ysgolheictod fel rhan o ymagwedd integredig at ymarfer academiaidd.
11. Defnyddio eich gweithgaredd ysgolheigaidd a'ch datblygiad proffesiynol perthnasol i sicrhau bod eich gwybodaeth yn gyfredol er mwyn cyfoethogi'r profiad dysgu i fyfyrwyr.
12. Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'ch ymarfer academiaidd a phroffesiynol.

Dinasyddiaeth ac Arweinyddiaeth Academiaidd

13. Myfyrio'n feirniadol ar eich arfer proffesiynol eich hun a sut y gellir ei ddefnyddio i wella eich ymarfer.
14. Cymryd rhan mewn cyfrifoldebau academiaidd cysylltiedig, megis goruchwylio prosiectau myfyrwyr, myfyrwyr ôl-raddedig, hyfforddiant academiaidd personol.
15. Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd grŵp pwnc/ymchwil.
16. Gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a, lle bo'n briodol, cefnogi neu fentora cydwethwyr.
17. Cyfrannu at bwyllgorau a gweithgorau a gweithredu fel llysgennad rhagorol i Ysgolion, Cyfadrannau a'r Brifysgol, fel y bo'n briodol.
18. Darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth fel yr amlinellir yn y disgrifyddion priodol a chanllawiau eraill y Brifysgol, gan gynnwys arweinyddiaeth modiwlau a, lle bo angen, cwrs.

Manyleb y Person

Er mwyn gallu ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol bydd angen y priodoleddau a'r sgiliau allweddol a amlinellir isod. Wrth gwblhau eich cais sicrhewch eich bod yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hyn.

1*	Gradd gyntaf briodol ar ddosbarthiad 2.1 neu uwch, ac yn ddelfrydol gradd Meistr. Os nad oes gennych radd Meistr, parodrwydd i ymgymryd â hi fel y bo'n briodol.
2*	Cymhwyster addysgu AU cydnabyddedig neu, fel isafswm, gydnabyddiaeth gan yr HEA fel Cymrawd. Os nad oes gennych y naill na'r llall, bydd angen i chi ymgymryd â chynllun mewnol y PGCLTHE/HEA fel y bo'n briodol.

3*	Statws Gweithiwr Cymdeithasol cofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
4*	Ymrwymiad i werthoedd craidd a chenhadaeth y Brifysgol.
5	Dyfarniad Addysgwr Ymarfer (neu barodrwydd i weithio tuag ato) Lefel fanwl o wybodaeth am ymarfer Gwaith Cymdeithasol a'r gallu i ysbrydoli myfyrwyr trwy addysgu a darparu cymorth academiaidd, gan gynnwys hyfforddiant academiaidd.
6	Brwdfrydedd ac ymrwymiad i ymgysylltu ag amrywiaeth o fyfyrwyr trwy wahanol ymarfer addysgeg ac adnoddau dysgu, megis technolegau digidol, dysgu seiliedig ar broblemau, addysgu deialog a dulliau eraill yn seiliedig ar y dystiolaeth gadarn ddiweddaraf o ymarfer arloesol.
7*	Profiad o addysgu, datblygu cwricwlwm a rheoli ansawdd yn yr amgylchedd AU.
8	Tystiolaeth o arfer cyfoes yn eich maes pwnc perthnasol a chynnal cyfoesedd.
9	Tystiolaeth mewn arferion bob dydd o ddealltwriaeth gadarn o faterion amrywiaeth fel y maent yn effeithio ar brofiad y myfyriwr.
10	Tystiolaeth o gyfraniad at brofiad ehangach y myfyriwr.
11	Tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol.
12	Y gallu i weithio'n annibynnol, i gymryd y cam cyntaf, ac i arloesi.
13	Mae'r gallu i siarad a/neu ysgrifennu yn Gymraeg yn ddymunol.

Yn ogystal bydd angen i chi:

	Bod yn barod i ymgymryd â gweithgareddau sy'n gofyn am arbenigedd staff academiaidd gyda'r nos ac ar benwythnosau pan fo angen.
	Bod yn barod i deithio dramor i wneud gweithgareddau academiaidd a gweithgareddau cysylltiedig.

Iechyd a Diogelwch

Rhaid i chi a) ymgysylltu a chydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y sefydliad, sydd ar gael ar Cyswllt (y Fewnwyd); a b) bod yn gwbl gyfarwydd â'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a amlinellir yn nogfen Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch y Gyfadran/Adran a'u gweithredu'n unol â hynny.

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd - Cynnig o gyfweiliad

Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwmo i gyflogi gweithlu amrywiol a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall staff fod yn nhw eu hunain a phawb yn cael eu trin ag urddas, tegwch a pharch. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o gefndiroedd a chymunedau amrywiol, yn enwedig o ran oedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd neu gred. Fel cyflogwr 'Hyderus o ran Anabledd', rydym yn gwarantu bod pob ymgeisydd anabl sy'n cwrdd â'r holl feini prawf allweddol ar gyfer y swydd wag y maent yn gwneud cais amdani yn cael cynnig cyfweiliad. Nodir meini prawf allweddol gan * ym Manyleb y Person uchod.